

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

5/5/2016

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Dorothei Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Islwyn Pritchard Jones, Ivora Jones, Alun Price, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Edith Roberts, Dilys Evans, Sharon Evans, Carol Rowlands, John C Williams.

1. Ar gynnig Dilwyn Jones, cadeiriwyd y cyfarfod gan Eifion Roberts.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/4/2016
5. **Cyfethol i'r sedd wag** – cytunwyd i ohirio'r mater i'r cyfarfod nesaf pryd y disgwylir presenoldeb llawn.
6. **Materion y Clerc:**
 - i. 5i Cafwyd ateb boddhaol y perchnogion ynglŷn ag arwyddion wrth y Parc Menter
 - ii. 8. Cytunwyd i brynu llyfr at ddefnydd y Cynghorwyr a'r Clerc
 - iii. 14 Trafodaeth Eifion Roberts am leoliad cctv - gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf
 - iv. Ystyriwyd yr wybodaeth a gyflwynodd y Clerc ar Ddiffibriliwyr Mynediad Cyhoeddus a chytunwyd i ofyn i Siop Spar a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn lleoli un yn eu siop a hyfforddi staff ar ei ddefnyddio.
 - v. Derbyniwyd neges gan Gyngor Gwynedd y bydd arolwg yn cael ei wneud o ddiogelwch cerflun Tom Ellis.
7. **Adroddiad y Cyngorydd Sir** - Dywedodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan ei fod yn falch bod y gwaith o uwchraddio'r ddau faes parcio yn mynd rhagddo. Cytunwyd i ddiolch i Colin Jones a thynnu ei sylw at amserau a phrisiau. Cadarnhawyd cyfreithlondeb y marciau gwyn yr ardal parcio anabl ar y Stryd Fawr. Adroddodd ymhellach fod panel defnyddwyr yn mynd i gael ei sefydlu i drafod manylion datblygiad yr ysgol newydd yn y dref. Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu i longyfarch Clwb Pêl Droed Y Bala ar lwyddo i chwarae yn Ewrop am y drydedd flwyddyn yn olynol. Cytunodd y Cyngor Tref i anfon llongyfarchiadau hefyd. Dywedodd y

Cynghorydd Dilwyn Morgan ei fod yn disgwyl y bydd mwy o finiau sbwriel yn cael eu gosod yn ardal y cael Pêl Droed.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ar gwblhau ei flwyddyn brysur fel Cadeirydd Cyngor Gwynedd a diolchwyd iddo am ei waith yn symud pethau ymlaen yn Y Bala.

8. Materion Cynllunio a thrwyddedu

- a. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei wrthod i geisiadau cynllunio siop Spar i gadw peiriant twll yn y wal a newid arwyddion blaen y siop.
- b. Derbyniwyd gwybodaeth fod caniatâd wedi ei roi i adeiladu ramp anabl i fynedfa Neuadd Buddug
- c. Cymeradwywyd Cais NP5/53/426G i amrywio'r caniatâd i ddefnyddio llifoleuadau'r cae pel droed.

9. Materion Cyllid

- i. Cymeradwywyd Cyfrifon Diwedd y Flwyddyn ar gyfer yr Archwilydd Mewnol (John Roberts)
- ii. Rhoddwyd ystyriaeth i werth yr asedau pan y'u prynwyd (ar gyfer yr Archwilydd)
- iii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
 - a. HMRC - PAYE – talwyd ar 11/4/16
 - b. Hill and Roberts – £126 Ffioedd cyfrifon
 - c. Cyngor Gwynedd - Rhent tir Y Domen – cytunwyd i anfon at y Trysorydd i egluro'r sefyllfa parthed y Brydles.
 - d. Cyngor Gwynedd - £1514.81 am osod goleuadau Nadolig wrth y cerflun, trwsio a goleuo'r coed eraill
 - e. Un Llais Cymru – £35 am hyfforddiant 2 Gynghorydd ar 22/3/16
 - f. C Jones - £25 am fframio'r llun mawr o'r Bala
 - g. Cyflog y Clerc

10. Gohebiaeth

- i. **Cyngor Gwynedd:** nodwyd apêl i annog pobl leol i gofrestru cais ar Gofrestr Tai Cyffredin Gwynedd os ydynt yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer cartrefi
- ii. **Cyngor Gwynedd:** derbyniwyd gwybodaeth am brisiau parcio yn y dref
- iii. **Cyngor Gwynedd:** derbyniwyd rhybudd am gau Heol y Plase dros dro ar gyfer gosod gwasanaeth nwy newydd.

- iv. **Un Llais Cymru:** ymatebwyd i gais am fanylion cyswllt cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Ardal; derbyniwyd agenda cyfarfod 25/5/16 yn Neuadd Pendre, Tywyn am 7.00pm a chytunodd y cynrychiolwyr i fynychu.
- v. **Grŵp Busnesau'r Bala:** ystyriwyd ymholiad am berchnogaeth baneri croeso'r Stryd Fawr. Cytunwyd i chwilio'r Cofnodion eto (Dilwyn Morgan a'r Clerc).
- vi. **Co-op:** Ystyriwyd cynnig gan siop y Co-op i weithwyr gyfrannu diwrnod o amser tuag at waith gwirfoddol yn y dref. Cytunwyd i gyfeirio'r cynnig at drefnwyr Ras yr Iaith.

11. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr/cydlynnydd .

12. Asedau'r Cyngor – derbyniwyd neges gan Carol Rowlands ar eu cyflwr.

13. Materion lleol y Cyngorwyr Tref

Cadw'r Domen yn ddiogel - gwerthfawrogwyd yn fawr ymdrechion y cymdogion i warchod Y Domen. Cytunwyd i ofyn i'r Heddlu ymweld â'r Domen yn rheolaidd gyda'r hwyr. Gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio i'r posibilrwydd o osod camera cylch cyfyng ar y safle.